CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 18ed MAWRTH 2025.

NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng. Mrs L Roberts (Is-Gadeiryddes) Cyng. Ms N Dafydd, J Evans, J E Lewis, R G Parry, D T Roberts ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng. G Jones, W R Parry, R R Roberts.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb.

CAEL COFNODION 18ain CHWEFROR 2025 YN RHAI CYWIR:
Cynnig Cyng. J Evans eilio Cyng. R G Parry.

Y Cyngor yn cydymdeimlo a Cyng. R R Roberts yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

Cafwyd cyfarfod gyda Mr Barry John Owen. Swyddog Gorfodi Gwarchod yr Amglyched Cyngor Mon. Pryder i`r Cyngor ydyw Baw Cwn. Cafwyd adroddiad fod pentwr rhwng yr Hen Garej Bryngwyn a Pen y Bryn, Llynfaes. Hefyd mae lon Bodwrog o`r Hen Llythyrdy Tynlon ymlaen am yr Eglwys.
Mae yn anodd gweld pryd mae hyn yn digwydd yn ystod y dydd neu gyda`r nos pan maen tywyllu. Os ydyw`r Cyhoedd yn gweld fod cwn yn meuddu ac ddim yn cael ei godi gofynnir iddynt gysylltu a`r Cyngor Sir. Ni fydd y Cyngor yn dirgelu pwy fydd wedi dweud. Bydd y Cyngor Sir nawr yn cymryd camau i wedl beth i wneud nesaf.
Hefyd edrych i fewn i`r broblem o faw cwn o gwmpas yr Ysgol ym Modffordd.
Diolchwyd i`r Swyddog am fynychu, a bydd y Cyngor yn cadw mewn cysylltiad i ddatruso y broblem.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. FPL/2025/45. Cais llawn ar gyfer gosod Pwmp Gwres yn:-
   Arosfa, 4 Gorffwysfa, Bodffordd.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng. J Evans, eilio Cyng. Ms N Dafydd.

PENDERFYNIADAU. (CYNLLUNIO)

2. HHP/2024/223. Cais ol-weithredol ar gyfer cadw cynwysyddion storio ar gyfer defnydd ystafell haf, swyddfa a storio yn:-
   Melin Caradog, Llandrygarn.
   Caniatad.

Nid oedd gan y cyngor unrhyw sylw.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Cyfreithiwr Tim Eiddo a Priffyrdd - Siwan Jones.
   Par: Gorchymyn Cyngor Sir Parc Diwydiannol Mona, Bodffordd.
   Dim aros ar unrhyw adeg 202X.
   Mae y Cyngor wedi pasio.
   Ar y ddwy ochor i`r Brif ffordd ddosbarthu ar holl ffyrdd ochr o`r cyffordd a`r A5.
   Ni ellir y Cyngor Cymdeithas ei dderbyn. Yr oeddent yn erbyn gwneud yr holl ffyrdd ochr.

GOHEBIAETH (ARALL)

4. Malcolm Rogers -Rheilffordd Segur.
   Mae Anglesey Central Railway Limited (ACRL) wedi cyhoeddi cynlluniau i wneud cais am orchymyn o dan y "Transport Works Act" ar gyfer trosglwyddo pwerau statudol o Nertwork Rail i ACRL i`w galluogi i barhau a`u nod o ddiogleu`r llinell, a gweithredu gwasanaethau rheilffordd Cymunedol / Trefiadaeth.
   Maen`t yn gofyn am ymholiadau, pryderon, neu gefnogaeth.
   Gofyn maen`t
   A ydym yn meddwl mai hwn yw`r defnydd gorau o`r rheilffordd segur?
   A ydym yn meddwl bod angen am, neu gefnogaeth ar gyfer "Rheilffordd Gymunedol / Treftadaeth"?
   A ydym yn credu bod ACRL yn debygol o allu codi mwy na £100m(*) sydd angen i gyflawni eu cynlluniau? Neu fydd yn dal yn i fod yn segur am 30 mlynedd arall?
   (*) Restoring Your Railway report by WSP Consultants for Transport for Wales.
   Y Cyngor Cymdeithas yn cefnogi y cynlluniau ar gyfer ailddablygu`r llwybr yn llwybr aml-ddefnydd.
   Cynnig Cyng. J E Lewis, eilio Cyng. R G Parry. Unfrydol.

5. Clercod a Cynghorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Cyng. J E Lewis yn ei dreulio.

6. Un Llais Cymru. Aelodaeth 2025 / 2026. £204.
   Pasiwyd i ymelodi am flwyddyn arall.
   Cynnig Cyng. R G Parry, eilio Cyng. J Evans. Unfrydol.

RHODDION.

7. Marie Curie. Cefnogaeth. Apel Cenin Pedr.
   Trwy gynnig Cyng. J Evans, eilio Cyng. R G Parry i gyfranu.
   Cyfraniad o £100 Cynnig Cyng. R G Parry, eilio Cyng. J Evans.

PLWYFOL.

8. Y Cyngor yn ddiolchgar i Arwel Evans Adran Llwybrau y Cyngor Sir am rhoi giat fochyn newydd yn lon Concrid Bodffordd.

9. Y Cyngor i rhoi arwydd Gwyndy (Un gwyrdd rhyn fath a rhai rhoddwyd yn Llynfaes, Glanrafon a Trefor yn ddiweddar) Cynnig R G Parry eilio J Evans. Dim gwrthwynebiad. Cafwyd cwyn gan hen Gynghorwr Bodffordd Glyn Owen. (Ward Bodwrog) Dylai ei fod wedi yr un amser ar lleill.

10. Awdits 2023 / 2024 wedi dod yn ol, rhyw faterion yn codi i`w gwneud.

11. Gofynodd Cyng. J E Lewis i rhoi y potiau blodau ym Modffordd (Gwaelod Bodffordd a Bronheulog ar y Rhaglen nesaf. Cymerodd y Cyngor rhain drosodd gan Bodffordd Cyf.

12. Dywedodd Cyng. J Evans fod cwyn am laswellt ar y cerrig beddi yn y Fynwent Gymunedol Bodffordd pan mae yn cael ei thorri. Gofyn a fydd yn bosib ei chwythu i ffwrdd.

13. Adroddiad y Cynghorydd Sirol Ms N Dafydd. Diolchwyd iddi am ei gwaith da.

MATERION ARIANNOL.

14. Cyfrif Rhedegol. £24,036.36 (Agor Bedd Eric Wyn Owen £400)

    Mynwent Gymunedol Bodffordd £9,910.00 rhan o`r uchod))

TALIADAU:

15. Clerc £470.00. Gweinyddu (3 Mis) £214.63. Treth Incwm 4. £352.50. Neuadd Goffa Bodwrog (Ystafell) £198.00 Aelodaeth Un Llais Cymru £204.00. Marie Curie (Rhodd) £100.00.

    Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng. J Evans, eilio Cyng. D T Roberts.

D Owen (Clerc)